Tîm Safleoedd Gwarchodedig
Maes y Ffynnon
Bangor
LL57 2DW
Ebost: marine.n2k@naturalresourceswales.gov.uk
Ffôn: 0300 065 3000

9fed Tachwedd 2016

Annwyl Syr/Fadam

## YMGYNGHORIAD AR NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I ARDAL GWARCHODAETH ARBENNIG LIVERPOOL BAY / BAE LERPWL

Rydym yn cynnal ymgynghoriad ynghylch nifer o newidiadau arfaethedig i Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) Liverpool Bay / Bae Lerpwl ar gyfer adar môr. Fel rhywun a allai fod â diddordeb yn yr ardal dan sylw, rydym yn ysgrifennu i'ch gwahodd i roi eich barn.

Mae AGA yn ardaloedd o dir neu fôr y nodir eu bod o bwysigrwydd Ewropeaidd ar gyfer gwarchod rhywogaethau adar prin, dan fygythiad ac ymfudol. Yn ôl Cyfarwyddeb Adar Gwyllt 2009 yr UE, mae'n ofynnol i bob un o aelod-wladwriaethau'r UE ddynodi AGA a rhoi mesurau ar waith i sicrhau cadwraeth y cynefinoedd a'r rhywogaethau y dynodwyd y safleoedd o'u herwydd.

Cafodd AGA Liverpool Bay / Bae Lerpwl ei dosbarthu gyntaf yn 2010, yn bennaf i warchod ei phoblogaethau o fôr-hwyaid duon a throchyddion gyddfgoch sy'n gaeafu yno. Yn awr, rydym yn ymgynghori ynghylch cynigion i ymestyn ffin yr AGA i gynnwys ardaloedd ychwanegol o fôr a blaendraeth, ac i ychwanegu rhywogaethau pellach o adar at y rhestr o rywogaethau yr ystyrir yr ardal yn arbennig o bwysig o'u herwydd, gan gynnwys gwylanod bychain sy'n gaeafu yno a môr-wenoliaid sy'n bridio yno.

Mae'r safle'n gorwedd yn nyfroedd alltraeth Cymru, Lloegr a'r DU, ac mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal ar y cyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Natural England. Mae manylion llawn y newidiadau arfaethedig i'r AGA ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru: www.cyfoethnaturiol.cymru/BaeLerpwl a gwefan Natural England: https://www.gov.uk/government/consultations/liverpool-bay-bae-lerpwl-special-protection-area-extension-comment-on-proposals. Mae'r wybodaeth sydd ar gael yn cynnwys papur ymgynghori sy'n egluro testun yr ymgynghoriad hwn a sut i ymateb, manylion am y dystiolaeth wyddonol sydd wrth wraidd y newidiadau arfaethedig i'r AGA, a mapiau'n dangos y newidiadau arfaethedig i ffin yr AGA.

Mae penderfyniadau ynghylch pa un a ddylid dynodi neu ddiwygio AGA yng Nghymru a dyfroedd glannau Cymru yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru, tra y mae penderfyniadau o'r fath yn Lloegr, dyfroedd glannau Lloegr a dyfroedd alltraeth y DU yn cael eu gwneud gan Ysgrifennydd Gwladol y DU. Nid oes penderfyniad wedi ei wneud hyd yn hyn ynghylch a ddylid cyflwyno unrhyw rai o'r newidiadau arfaethedig i AGA Liverpool Bay / Bae Lerpwl. Mae CNC a Natural England yn cynnal yr ymgynghoriad hwn ar ran

Llywodraethau Cymru a’r DU a byddwn yn rhoi adroddiad ar ganlyniadau’r ymgynghoriad iddynt. Wrth wneud hynny, byddwn yn ystyried yr holl ymatebion a gafwyd i’r ymgynghoriad, ond nodwch os gwelwch yn dda mai ystyriaethau gwyddonol perthnasol yn unig y gall y Gweinidogion eu hystyried wrth benderfynu pa un a ddylid dynodi AGA. Gall gwybodaeth a safbwyntiau’n ymwneud ag ystyriaethau economaidd a chymdeithasol helpu i lywio penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch y ffordd y dylai’r ardaloedd gael eu rheoli, ond ni allant ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch dosbarthu AGA nac ar bennu eu ffiniau.

Mae manylion llawn am sut i ymateb a ble i anfon eich ymateb i’w cael ar wefannau Natural England a CNC.

Os hoffech gael copïau papur o unrhyw un o’r dogfennau ymgynghori, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau cychwynnol ynglŷn â’r ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost atom morol.n2k@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk neu ffoniwch ni ar 0300 065 3000. Mae croeso ichi gysylltu â'ch swyddfa CNC leol yn Ffordd Caer, Bwcle, Sir y Fflint CH7 3AJ. Os oes gennych ymholiad sy’n ymwneud yn bennaf â rhan Lloegr neu ran alltraeth y safle, efallai y byddai'n well gennych gysylltu â Natural England Liverpool.BaySPA@naturalengland.org.uk neu dros y ffôn ar 0300 060 3900.

**Dylai ymatebion i’r ymgynghoriad ynghylch y newidiadau arfaethedig i’r AGA gael eu cyflwyno i Natural England, NID i CNC**. Y ffordd orau o ymateb yw drwy ddefnyddio’r ffurflen ymateb ar-lein syml (dilynwch y ddolen o’r dudalen ymgynghori ar y wefan). Mae’r ffurflen ar-lein yn eich galluogi i roi ymateb byr, neu ymateb yn fanwl i’r cwestiynau ymgynghori, a gallwch atodi dogfen ychwanegol pe bai angen. Os nad ydych yn gallu ymateb ar-lein, cysylltwch â Natural England os gwelwch yn dda i drafod ffordd arall o ymateb un ai trwy ebostio Liverpool.BaySPA@naturalengland.org.uk neu drwy ffonio 0300 060 3900. Gellir ymateb yn y Gymraeg neu’r Saesneg.

Mae CNC hefyd yn ymgynghori ynghylch asesiad drafft o effaith goblygiadau cymdeithasol ac economaidd posibl y cynigion, i’r graddau y byddant yn effeithio ar ran Cymru o’r safle, ac mae ar gael ar www.cyfoethnaturiol.cymru/BaeLerpwl. Dylai sylwadau ynghylch yr Asesiad Drafft o’r Effaith gael eu hanfon i CNC (nid Natural England), naill ai drwy e-bost: morol.n2k@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk neu drwy lythyr: Tîm Safleoedd Gwarchodedig, CNC, Maes y Ffynnon, Bangor LL57 2DW.


Rhaid i Natural England (neu CNC mewn perthynas â’r Asesiad Drafft o’r Effaith) dderbyn pob ymateb erbyn 17:00 ar **08/02/2017 fan bellaf**, sef yr adeg y bydd y cyfnod ymgynghori’n dod i ben.

**Sylwer, er mwyn bod yn dryloyw ac yn agored, efallai y bydd yr holl ymatebion i’r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys enwau’r holl ymatebwyr (ond heb gynnwys eu cyfeiriad neu unrhyw wybodaeth bersonol arall), ar gael i’r cyhoedd ar gais, ac efallai y byddant yn cael eu cyhoeddi, yn rhannol neu’n gyfan, ar wefannau CNC a/neu NE/JNCC. Bydd yr holl wybodaeth bersonol yn cael ei thrin yn unol â gofynion y Ddeddf Diogelu Data. Os nad ydych yn dymuno i’ch enw a’ch barn ynghylch y cynigion AGA hyn fod ar gael i’r cyhoedd, fe’ch cynghorir i beidio ag ymateb i’r**

**ymgynghoriad hwn. Wrth ymateb, peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch eich hun nac eraill yng nghorff eich ymateb.**

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir



Ceri Davies
Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu